

**Arolygiad o Bractis  
Deintyddol Cyffredinol  
(Lle Rhoddwyd Rhybudd)  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Cwm Taf, MyDentist  
Tonysguboriau**

8 Mawrth 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan GIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	4
3.	Crynodeb .....	5
4.	Canfyddiadau .....	6
	Ansawdd Profiad y Claf .....	6
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	9
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	15
5.	Y Camau Nesaf.....	16
6.	Methodoleg .....	17
	Atodiad A.....	19

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygrych a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o MyDentist Tonysguboriau ddydd Mawrth, 8 Mawrth 2016.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd MyDentist Tonysguboriau yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol gyda rhybudd ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae MyDentist Tonysguboriau yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Rhondda Cynon Taf. Mae'r practis yn rhan o Integrated Dental Holdings, a adnabyddir fel 'MyDentist', sydd â rhwydwaith o bractisau deintyddol ar draws y DU. Mae MyDentist Tonysguboriau yn darparu gwasanaethau deintyddol yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Practis cymysg yw MyDentist Tonysguboriau sy'n cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys saith deintydd, dau hylenydd, rheolwr y practis, nyrs arwain, pum nyrs ddeintyddol, a thair nyrs dan hyfforddiant. Roedd y rheolwr ardal hefyd yn bresennol ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. Crynodeb

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod MyDentist Tonysguboriau yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol a bod gan ei gleifion farn uchel ohono.

Dyma a ganfuwyd gennym fod y practis yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr adborth a gafwyd o'r holiaduron cleifion yn gadarnhaol
- Roedd gan y practis system ar waith ar gyfer gofyn am adborth cleifion yn rheolaidd
- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Roedd gan y practis drefniadau priodol ar gyfer diogelu cleifion.

Dyma'r hyn yr ydym yn argymhell y gallai'r practis ei wella:

- Agweddau ar y cyfleusterau clinigol, gan gynnwys amserlen lanhau fwy effeithiol
- Adolygiad o brosesau dadheintio er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r canllawiau perthnasol
- Gwelliannau i gofnodion cleifion er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol am driniaeth
- Diweddarau'r weithdrefn gwynion er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi ei chynnwys.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

Canfuwyd tystiolaeth gennym fod y practis wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd o holiaduron cleifion yn gadarnhaol. Roedd gan y practis system ar waith ar gyfer gofyn am adborth gan gleifion yn rheolaidd, trwy holiadur ar-lein ac arolwg cleifion, fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth. Ceir ystafell aros braf a thystiolaeth o ddeunydd hybu iechyd deintyddol.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC ymhlith y cleifion i ganfod safbwyntiau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd 13 o holiaduron gan gleifion, ac roedd enghraifft o sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*“Yn groesawgar a chyfeillgar bob amser.”*

*“Mae fy neintydd yn ardderchog, mor dyner a gofalgar – y gorau yr wyf i erioed wedi ei gael yn ôl pob tebyg!”*

*“Caiff popeth ei esbonio'n fanwl iawn cyn cyflawni unrhyw driniaeth.”*

*“Rwy'n fodlon iawn. Maen nhw'n gyfeillgar, yn effeithlon, ac nid ydyn nhw'n achosi gormod o boen!”*

### **Gofal aq urddas**

Dyweddodd yr holl gleifion eu bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff, ac fe'n hysbyswyd gan y mwyafrif o gleifion eu bod yn hynod fodlon â'r gofal a'r driniaeth y maent yn eu derbyn yn y practis. Gwelsom hefyd yr ymagwedd gyfeillgar a phroffesiynol a fabwysiadir gan y staff tuag at gleifion. Roedd gan y practis drefniadau i sicrhau preifatrwydd cleifion, gan gynnwys man i gleifion gael sgrysiâu preifat gyda staff a disgresiwn wrth ymdrin â negeseuon ffôn cleifion.

### **Gofal amserol**

Mae'r practis yn ceisio sicrhau y darperir gofal deintyddol mewn ffordd amserol. Dim ond un claf o'r rhai a gwblhaodd holiadur ddywedodd ei fod wedi dioddef oediadau cyn cael ei weld gan y deintydd. Fe'n hysbyswyd gan ddau o bob tri chlaf hefyd eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at ofal y tu allan i oriau.



Roedd arwydd ar ffenestr y ddeintyddfa yn rhoi'r rhif cyswllt brys ac roedd hwn hefyd wedi ei ddarparu ar neges peiriant ateb y practis ac ar y wefan.

### **Cadw'n iach**

Roedd y dderbynfa a'r ystafell aros yn olau ac yn eang gan greu awyrgylch groesawgar i gleifion. Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod yn derbyn gwybodaeth briodol am eu triniaeth.

### **Gofal unigol**

Fe'n hysbyswyd gan staff bod cleifion yn cael eu hannog i roi adborth llafar ar eu barn ar y gwasanaeth pan fyddant yn mynychu'r practis, a chaiff y sylwadau hyn eu cofnodi'n electronig ac yn nodiadau'r cleifion. Dangoswyd copi i ni o'r holiadur ar-lein y gwahoddir cleifion i'w gwblhau a dangosodd y nyrs arwain y data a gasglwyd i ni, sy'n cael eu storio'n electronig. Caiff sylwadau cleifion eu hadolygu a chymerir camau ar sail unrhyw dueddiadau. Roedd hyn yn dangos bod systemau ar waith i alluogi cleifion i ddarparu adborth i'r practis ar sail barhaus.

Pan ofynnwyd iddynt am wneud cwynion am eu gofal neu eu triniaeth, dywedodd dau o bob tri o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn. O ystyried y sylwadau, cynghorir y practis i adolygu sut y darperir gwybodaeth am wneud cwynion i gleifion.

Canfuwyd gennym fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol. Canfuwyd gennym fod y weithdrefn yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a gweithdrefn gwynion y GIG a adnabyddir fel 'Gweithio i Wella'. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y weithdrefn gwynion yn cynnwys yr holl sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw, gan gynnwys manylion AGIC ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Nid oedd y polisi'n eglur chwaith ynghylch y sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw yn dibynnu ar a ydynt yn derbyn triniaeth breifat neu GIG.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid diweddarau'r weithdrefn gwynion i gynnwys y sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw, gan gynnwys AGIC ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Dylai'r polisi hefyd fod yn eglur ynghylch y broses a'r sefydliadau perthnasol, yn dibynnu ar a yw cleifion yn derbyn triniaeth breifat neu GIG.***

Roedd proses sefydledig ar gyfer cofnodi unrhyw bryderon/cwynion ffurfiol a dderbynnir a sut y rhoddwyd sylw iddynt. Gwelsom y bu nifer o gwynion. Caiff y cwynion hyn eu monitro ond nid oedd unrhyw themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg.

## ***Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol***

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd y practis yn amlwg yn lân ac yn daclus. Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon bod cleifion a staff yn cael eu diogelu rhag heintiau cysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal, ond nodwyd rhai meysydd i'w gwella gennym. Edrychwyd ar sampl o gofnodion cleifion ac argymhellwyd gwelliannau gennym o ran cofnodi gwybodaeth am driniaeth, fel caniatâd y claf.

### **Gofal diogel**

#### *Cyfleusterau clinigol*

Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân. Roedd y ddau doiled i lawr y grisiau yn amlwg wedi eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd toiled neillryw hygyrch i gleifion ond nid oedd rheiliau gafael na system alw frys wedi'u gosod. Cynghorwyd y practis i sicrhau bod unrhyw doiled hygyrch neilltuedig i gleifion yn ddiogel ac yn addas i'w ddefnyddio.

Roedd y rhannau o'r practis wedi cael eu hailwampio ac yn olau ac awyrog. Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth a chanfuwyd gennym fod yr offer perthnasol ynddynt i sicrhau diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth o ddroriau a hambyrddau yr oedd angen eu glanhau yn fwy trylwyr a llwch ar rai darnau o offer, o dan gownteri ac y tu ôl i ddrysau. Gwelsom hefyd fod y trim ar hyd ymylon y bwrdd gwaith wedi dod i ffwrdd yn Ystafell Driniaeth 4, gan ei atal rhag cael ei lanhau'n effeithiol. Hefyd, nid oedd unrhyw orchuddion bysellfwrdd yn nhair o'r ystafelloedd triniaeth i atal llwch a bacteria rhag casglu.

#### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r trefniadau ar gyfer rheoli heintiau:***

- ***Amserlen lanhau fwy effeithiol***
- ***Rhoi sylw i'r deunydd selio ar y byrddau gwaith yn Ystafell Driniaeth 4 fel y gellir eu glanhau'n effeithiol***
- ***Trefniadau ar gyfer diogelu bysellfyrddau.***

Roedd yr ystafelloedd triniaeth oll wedi'u trefnu mewn ffordd debyg i helpu'r nyrsys i weithio'n effeithlon mewn unrhyw fan. Gwelsom fod y practis yn dyddio offerynnau a oedd wedi'u sterileiddio a chael eu rhoi mewn pecynnau fel nad

oeddent yn cael eu cadw y tu hwnt i'r cyfnod storio a nodir yng ngweithdrefnau'r practis. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod rhai offerynnau wedi mynd heibio eu dyddiadau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis wella'r system ar gyfer sicrhau nad yw offerynnau sydd wedi cael eu sterileiddio a'u rhoi mewn pecynnau yn cael eu cadw y tu hwnt i'w cyfnod storio.***

Roedd y rhan fwyaf o waith papur labordai deintyddol, ond nid y cwbl, yn dangos bod y labordai wedi'u cofrestru gyda'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis gadarnhau bod yr holl labordai a ddefnyddir wedi'u cofrestru gyda'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.***

Roedd tystysgrif archwiliad diogelwch wedi'i sicrhau ar gyfer y peiriant sy'n darparu aer cywasgedig i'r ystafelloedd triniaeth (cywasgydd), a nodwyd gennym hefyd bod y profion dyfeisiau cludadwy (PAT) wedi eu cwblhau ar yr holl offer trydanol er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau bach yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom y contract gwasanaeth tân ac roedd offer tân a oedd wedi cael ei archwilio'n ddiweddar ar gael. Roedd arwyddion eglur i'r allanfeydd tân.

***Offer radiograffig***

Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Canfuwyd dystiolaeth o archwiliadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw offer, a phrofion. Gwelwyd rheolau lleol ar gyfer y defnydd o offer pelydr-X yn y ffeil diogelwch ymbelydredd hefyd, ac ar y wal yn y ddeintyddfa. Cynhaliwyd archwiliadau diogelwch a chynnal a chadw diweddar ar yr holl beiriannau a chadarnhawyd eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, sylwyd bod un peiriant a ddefnyddir yn Ystafell Driniaeth 4 wedi cael ei osod yn y 1980au a'i fod wedi treulio. Trafodwyd hyn gyda'r practis a chynghorwyd y dylid ystyried cael peiriant newydd. O ystyried gofyniad y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio bod yr holl offer pelydr-X yn ddiogel ac yn addas i'w ddefnyddio, cynghorir y practis i fonitro'r peiriant penodol hwn yn agos o ystyried ei oedran, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Cadarnhaodd y staff fod ansawdd y delweddau pelydr-X a gymerir yn cael eu hystyried a'u cofnodi yn feunyddiol. Gwelsom fod y practis yn cwblhau archwiliadau radiograffig rheolaidd a drafodir yn y cyfarfodydd adolygu cymheiriaid anffurfiol bob dau fis. Atgoffir y practis y dylai fod rhaglen gadarn ar gyfer sicrhau ansawdd ac archwiliadau ar gyfer delweddau pelydr-X, yn unol â gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio Datguddio Meddygol a chanllawiau arfer gorau,<sup>1</sup> gan ystyried amrywiaeth o feysydd fel cyfiawnhad, gwerthusiadau clinigol o ddelweddau pelydr-X, dos cleifion ac offer pelydr-X, ymhlith eraill.

#### *Storio cyffuriau ac offer ar gyfer achos brys*

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymateb i achosion meddygol brys cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dynodi bod holl aelodau'r tîm wedi derbyn hyfforddiant ar sut i gyflawni dadebriad cardio-pwlmonaidd (CPR) ac roedd dau o'r tîm yn weithwyr cymorth cyntaf neilltuedig. Roedd polisi dadebru ar waith.

Roedd yr offer dadebru a chyffuriau ar gyfer achos brys wedi'u storio yn y dderbynfa ac ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (ymgwmpiad) yn y practis. Roedd yn amlwg bod system ar waith i archwilio'r offer a chyffuriau ar gyfer achosion brys yn wythnosol er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

#### *Dadheintio*

Mae gan y practis ystafell neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol. Gwelsom fod protocol dadheintio a oedd wedi'i arddangos ar y wal yn cyfeirio at y canllawiau yn Lloegr yn hytrach na chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<sup>2</sup> (WHTM 01-05). Cynghorwyd y practis i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r canllawiau sy'n berthnasol yng Nghymru.

---

<sup>1</sup> Mae'r Adran Iechyd (2001) wedi datblygu '*Guidance notes for dental practitioners on the safe use of x-ray equipment*', sy'n disgrifio ystod yr archwiliadau sicrhau ansawdd a radiograffig y dylai practisau deintyddol eu cyflawni.

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/337178/misc\\_public\\_DentalGuidanceNotes.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/337178/misc_public_DentalGuidanceNotes.pdf)

<sup>2</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444>

Roedd system ar waith i wneud yn siŵr bod yr holl nyrsys sy'n ymgymryd â gwaith dadheintio wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol. Canfuwyd gennym fod tystysgrifau cynnal a chadw ar gyfer yr offer sterileiddio yn gyfredol. Roedd y practis yn cofnodi archwiliadau beunyddiol ac wythnosol ar y sterileiddwyr er mwyn sicrhau bod yr offer yn dal i weithio'n iawn a bod y broses ddadheintio yn effeithiol. Roedd y man dadheintio yn amlwg yn lân ac yn rhydd o annibendod. Fodd bynnag, sylwyd gennym fod yr awyriad yn wael.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis adolygu'r awyriad yn y man dadheintio.***

Gwelsom nad oedd y menig a ddefnyddir ar gyfer glanhau offerynnau â llaw yn ddigon trwchus a chynghorwyd y practis i roi sylw i hyn. Yn ogystal â'r man dadheintio, canfuwyd gennym fod un o'r ystafelloedd triniaeth yn cael ei defnyddio i lanhau offerynnau hefyd. Dim ond un sinc oedd yn yr ystafell driniaeth hon ac nid oedd powlen i'w defnyddio i wahanu'r broses o lanhau a rinsio'r offerynnau, fel sy'n ofynnol yn ôl canllawiau WHTM 01-05. Fe'n hysbyswyd bod yr ystafell driniaeth hon yn cael ei defnyddio gan y deintydd sy'n cyflawni mewnbaniadau ar ddydd Sadwrn, ac fe'n hysbyswyd gan y staff y disgwyliwyd iddi gael ei symud i ystafell driniaeth arall. Er hyn, roedd tystiolaeth fod yr ystafell driniaeth wedi cael ei defnyddio ar ddiwrnod yr arolygiad.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y prosesau dadheintio ar draws y practis, gan gynnwys unrhyw waith glanhau offerynnau sy'n cael ei wneud yn y ddeintyddfa, yn cyd-fynd â chanllawiau WHTM 01-05 bob amser.***

Dangosodd y practis dystiolaeth i ni o'r archwiliad rheoli heintiau diweddar. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd unrhyw gynllun gwella wedi cael ei lunio o ganlyniad i'r archwiliad hwn er mwyn helpu i wella cydymffurfiad. Gwelsom hefyd fod yr archwiliad a gwblhawyd yn nodi bod gan y practis lefel uchel o gydymffurfiad, ond nid oedd hyn yn cyd-fynd â'r canfyddiadau i ni eu nodi yn ystod yr arolygiad hwn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***O ystyried y canfyddiadau o'n harolygiad, dylai'r practis ailgynnal archwiliad rheoli heintiau a datblygu cynllun gwella i roi sylw i'r meysydd a amlygir.***

### *Cael gwared ar wastraff*

Roeddem yn gallu gweld bod gan y practis system ar waith i reoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar gael ar gyfer cael gwared ar wastraff sy'n beryglus ac nad yw'n beryglus.

### *Diogelu*

Canfuwyd gennym fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.

Fe'n hysbyswyd bod trefniadau ar waith i staff godi pryderon. Dywedodd y staff i ni siarad â nhw y byddent yn gyfforddus yn siarad â rheolwr y practis, yr oeddent yn teimlo oedd yn hawdd mynd ati, ac y gallent godi unrhyw broblemau.

### **Gofal effeithiol**

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'n barhaus y gwasanaeth a ddarperir. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau perthnasol wedi cael eu cynnal gan y practis. Roedd gan y practis y cyfle i ofyn am gyngor a chefnogaeth gan y rheolwr deintyddol ardal. Gwelsom dystiolaeth fod y staff yn cymryd rhan mewn rhai archwiliadau adolygu cymheiriaid ac roedd un o'r deintyddion wedi gwneud cais diweddar i gynnal archwiliad yn rhan o'i ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Trafodir yr archwiliadau hyn mewn cyfarfodydd tîm ac fe'u defnyddir i nodi tueddiadau. Nid oedd yr offeryn datblygu arfer Deintyddiaeth Matrics Aeddfedrwydd yn cael ei ddefnyddio, ond dywedodd y rheolwr deintyddol ardal fod ganddynt eu matrics hyfforddiant mewnol eu hunain y maent yn ei ddefnyddio i alluogi pawb yn y practis i ddatblygu eu sgiliau ac i feddwl am yr ansawdd gofal.

### **Cofnodion cleifion**

Edrychwyd ar sampl o gofnodion saith o gleifion, a oedd yn cynnwys cofnodion a gwblhawyd gan bob un o'r chwe deintydd sy'n gweithio yn y practis. Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod y cofnodion o safon briodol ac yn dangos bod gofal wedi cael ei gynllunio a'i ddarparu gyda'r bwriad o sicrhau diogelwch a lles cleifion. Canfuwyd gennym fod y cofnodion gofal cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol am drafodaethau a gynhaliwyd am opsiynau triniaeth. Fodd bynnag, nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella gennym:

- Nid oedd caniatâd cleifion yn cael ei gofnodi bob amser.

- Nid oedd rhai cofnodion yn dangos unrhyw dystiolaeth o gyngor ar roi'r gorau i ysmegu.
- Nid oedd tri o'r chwe deintydd wedi cofnodi bod sgrinio ar gyfer canser y geg wedi cael ei esbonio. Cynghorir y dylid cofnodi hyn.
- Nid oedd tri o'r chwe deintydd yn cofnodi cyfnodau adalw yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE).
- Er bod mwyafrif y deintyddion yn cofnodi cynllunio ar gyfer triniaeth, nid oedd hyn wedi'i gynnwys yn eglur yn yr holl nodiadau.
- Nid oedd system gyson ar gyfer gwirio hanesion meddygol.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i gofnodion cleifion i gynnwys cofnodi:***

- ***Caniatâd cleifion***
- ***Rhoi'r gorau i ysmegu***
- ***Adalw yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE)***
- ***Cynllunio triniaeth***
- ***System gyson ar gyfer gwirio hanesion meddygol.***

Canfuwyd gennym fod gan y practis drefniadau priodol ar waith i gadw copi wrth gefn o gofnodion cleifion er mwyn sicrhau parhad gofal. Cedwir cofnodion papur mewn cypyrddau ffeilio y gellir eu cloi yn y swyddfa ac ym mhob ystafell driniaeth.



## ***Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Canfuwyd tystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol gennym yn y practis. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Roedd y tîm staff yn ymddangos yn hapus yn eu swyddi ac roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu dyletswyddau.**

Mae'r practis wedi bod yn Nhonysguboriau ers blynnyddoedd lawer. Mae gwaith ailwampio clinigol wedi cychwyn ar y practis ers iddo gael ei gymryd drosodd gan Integrated Dental Holdings.

Rheolwr y practis a'r nyrs arwain sy'n gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd y ddwy'n effeithlon ac yn gymwys yn eu swyddi. Gwelsom dystiolaeth eglur o ffolderi ymsefydlu wedi'u cwblhau ac o gyrsiau hyfforddi a gwblhawyd gan y staff. Rhoddir mynediad at y polisïau i'r holl staff. Cynhelir gwerthusiadau blynyddol ar gyfer y tîm. Gwelsom dystiolaeth o werthusiadau ar gyfer y staff a gwblhawyd ym mis Mehefin 2015.

Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd staff ar gyfer nyrsys deintyddol a gynhelir yn fisol. Roedd cyfarfodydd practis rheolaidd ar gyfer yr holl staff hefyd wedi cael eu cyflwyno ym mis Ionawr 2016. Roedd gan y staff gyfle i gynnig sylwadau a gwneud awgrymiadau. Roedd tystiolaeth hefyd bod awgrymiadau'n cael eu rhoi ar waith.

Cadarnhawyd gennym fod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â'r rheoliadau deintyddiaeth breifat, roedd yr holl ddeintyddion sy'n darparu triniaeth breifat wedi'u cofrestru gydag AGIC ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos. Gwelsom hefyd gofnodion yn ymwneud â statws imiwneiddiad hepatitis B yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

Edrychwyd ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith a gwelsom dystiolaeth eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol yn gyffredinol. Yn gyffredinol, roedd polisïau'n cael eu llunio'n benodol ar gyfer y practis ac yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Roedd tystiolaeth bod gan y staff fynediad at y polisïau hyn sy'n llywodraethu eu gwaith o ddydd i ddydd.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn MyDentist Tonysguboriau yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Y Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>3</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>4</sup> Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

<sup>4</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar gymhwysiad safonau yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: MyDentist Tonysguboriau**

**Dyddiad yr Arolygiad: 08 Mawrth 2016**

Rhif Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd Profiad y Claf</b>					
7	Dylid diweddarau'r weithdrefn gwynion i gynnwys y sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw, gan gynnwys AGIC ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Dylai'r polisi hefyd fod yn eglur ynghylch y broses a'r sefydliadau perthnasol, yn dibynnu ar a yw cleifion yn derbyn triniaeth breifat neu GIG.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Diwygio) 2011, Adran 15 (4a)  Trefniadau 'Gweithio i Wella' y GIG	Mae'r cwmni wrthi'n gweithio ar ddiwygio'r canllawiau yn amlinellu'r sefydliadau perthnasol fel bod y poster yn dangos y wybodaeth gywir.  Maent wedi drafftio'r poster ac wrthi'n gweithio gydag aelod o GIG Cymru fel ei fod yn dangos y wybodaeth gywir sy'n ofynnol, gan y rhoddwyd gwahanol wybodaeth o ffynonellau amrywiol.	Canolfan Gymorth / Cymorth i Gleifion / Swyddog Rheoleiddio	Mehafin / Gorffennaf 2016

Rhif Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<b>Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol</b>					
9	<p>Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r trefniadau ar gyfer rheoli heintiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amserlen lanhau fwy effeithiol</li> <li>• Rhoi sylw i'r deunydd selio ar y byrddau gwaith yn Ystafell Driniaeth 4 fel y gellir eu glanhau'n effeithiol</li> <li>• Trefniadau ar gyfer diogelu bysellfyreddau.</li> </ul>	<p>Y Safonau Iechyd a Gofal 2.4</p> <p>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5</p>	<p>Rhodddwyd amserlen waith erbyn hyn i'r glanhawr sydd wedi'i gontractio, ynghyd â rhestr wirio i'w chwblhau, ac mae'n gweithio gyda'r system newydd.</p> <p>Hysbyswyd yr adran gyfleusterau am hyn a bydd yn cael ei gwblhau yn unol â'r cyfnod amser a nodwyd.</p> <p>Archebwyd gorchuddion bysellfwrdd.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p> <p>Canolfan Gymorth / Rheolwr y Practis</p> <p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>1 mis</p> <p>1 mis</p> <p>1 mis</p>
10	<p>Mae'n rhaid i'r practis wella'r system ar gyfer sicrhau nad yw offerynnau sydd wedi cael eu sterileiddio a'u rhoi mewn pecynnau yn cael eu cadw y tu hwnt i'w cyfnod storio.</p>	<p>Y Safonau Iechyd a Gofal 2.4</p> <p>WHTM 01-05, Adran 1.24</p>	<p>Mae'r holl staff wedi cael eu briffio mewn cyfarfod ac ail-bwysleisiwyd y canllawiau ar faint o amser y ceir storio offerynnau sydd wedi'u sterileiddio. Caiff y rhain hefyd eu gwirio bob wythnos yn rhan o'u dyletswyddau yn yr ystafell driniaeth.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Rhif Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
10	Dylai'r practis gadarnhau bod yr holl labordai a ddefnyddir wedi'u cofrestru gyda'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.	Rheoliadau Dyfeisiau Meddygol	Mae'r holl labordai a ddefnyddir wedi'u cofrestru gyda DAMAS.  Tystiolaeth ar gael i brofi hyn. Polisi'r cwmni hefyd yw na ddylid defnyddio unrhyw labordai oni bai eu bod wedi'u cymeradwyo gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd / DAMAS.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd
12	Dylai'r practis adolygu'r awyriad yn y man dadheintio.	Y Safonau Iechyd a Gofal 2.4  WHTM 01-05, Adran 6.43	Roedd y brif swyddfa yn ymwybodol o'r awyriad yn y man dadheintio. Trefnwyd syrfëwr rhanbarthol i ddarparu cynllun ar y gwaith sydd ei angen.	Y Brif Swyddfa	3 mis
12	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y prosesau dadheintio ar draws y practis, gan gynnwys unrhyw waith glanhau offerynnau sy'n cael ei wneud yn y ddeintyddfa, yn cyd-fynd â chanllawiau WHTM 01-05 bob amser.	WHTM 01-05, Adran 5	Cynhaliwyd cyfarfod staff i ail-bwysleisio'r broses ddadheintio ac mae tri aelod o staff wedi bod ar gwrs y Ddeoniaeth.  Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant Rheoli Heintiau'r cwmni ar yr LMS. Mae Tayer Witchell, ein harweinydd diacon, yn	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd

Rhif Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			goruchwyllo hyn bellach gan sicrhau ei fod yn cael ei hwyluso.  Symudwyd y ffwrn aerglos o'r ystafell driniaeth erbyn hyn ac fe'i rhoddwyd yn yr ystafell ddiagon.		
12	O ystyried y canfyddiadau o'n harolygiad, dylai'r practis ailgynnal archwiliad rheoli heintiau a datblygu cynllun gwella i roi sylw i'r meysydd a amlygir.	Y Safonau lechyd a Gofal 2.4  WHTM 01-05, Adran 2.22-2.25	Bydd archwiliad rheoli heintiau yn cael ei gynnal a'i adolygu gyda'r Swyddog Rheoleiddio er mwyn sicrhau bod safonau WHTM 01-05 yn cael eu bodloni.	Rheolwr y Practis	30 Mehefin 2016
14	Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i gofnodion cleifion i gynnwys cofnodi: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Caniatâd cleifion</li> <li>• Rhoi'r gorau i ysmegu</li> <li>• Adalw yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE)</li> <li>• Cynllunio triniaeth</li> </ul>	Y Safonau lechyd a Gofal 3.3, 3.5, 4.2  Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.11, 4.1.2	Mae'r holl glinigwyr yn defnyddio'r un templed erbyn hyn, sy'n cynnwys cofnodi'r wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i fodloni safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Byddaf hefyd yn cynnal archwiliad o gardiau cofnodion yn ystod y tri mis nesaf er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud.  Bydd archwiliad yn cael ei gynnal ym mis Awst 2016.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd



Rhif Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<ul style="list-style-type: none"> <li>System gyson ar gyfer gwirio hanesion meddygol.</li> </ul>				
<b>Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>					
	Nid oes angen unrhyw welliannau.				

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras): SARA HAAWORTH**

**Teitl: RHEOLWR Y PRACTIS**

**Dyddiad: 25 Mai 2016**